ETHOLIAD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL ELECTION

CARMARTHEN TOWN SOUTH

THURSDAY MAY 1st 2008

VOTING 7a.m. - 10p.m.

DE TREF CAERFYRDDIN

DYDD IAU MAI 1af 2008

PLEIDLEISIO 7y.b. - 10y.h.

Plaid PLAID CYMRU

Plaid PLAID CYMRU

ARWEL LLOYD | X

IT'S TIME FOR CHANGE

If you feel that it's time to change the current set up in County Hall, Plaid with 60 candidates is the only party that can challenge the Labour/Independent run Authority.

WITH YOUR SUPPORT WE CAN STAND UP AND DEFEND OUR TOWN

LET'S WORK TOGETHER FOR CARMARTHEN

MAE ANGEN NEWID

Os cytunwch ei fod yn hen bryd newid y drefn bresennol yn y Cyngor Sir, Plaid Cymru, gyda 60 ymgeisydd yw'r unig blaid a all herio'r Grŵp Annibynnol/Llafur.

GYDA EICH CEFNOGAETH CHI FE ALLWN AMDDIFFYN EIN TREF

GADEWCH I NI WEITHIO GYDA'N GILYDD DROS GAERFYRDDIN

PLAID COUNTY COUNCILLORS' RECORD AND FUTURE PRIORITIES

Keeping in touch with our electors. Plaid Councillors are already doing this effectively and I would do the same through distributing '**Newsletters**' and holding regular '**Street Surgeries**' throughout the Ward.

Keeping St. Catherine Street Open. Plaid Councillors were instrumental in keeping St. Catherine Street open as part of the Old Mart Site Development. All Labour and Independent Councillors voted to close it. Plaid Councillors voted to keep it open and arranged public meetings at their own cost to oppose the closure.

School Transport. Plaid would review the issue of allowing once again **Free School Transport** within the town of Carmarthen for safety reasons with a reduction in the use of cars which will improve the environment.

The Quayside. I will campaign to support the development of the Quayside which is in the South Ward. This was a very important part of the town historically, and any future developments should reflect our heritage e.g. coracles and boats so as to attract people to understand our rich local heritage. I will also support the coracle men following the latest decision by the Environment Agency to reduce the number of coracle licences on the Towy from 11 to 8.

800 new Houses. I will be joining Plaid Councillors in West Ward to object to proposals by the County Planning Department to build 800 new dwellings between Travellers Rest and the old St Davids Hospital. Grounds for objection are based upon the lack of capacity of the local road network, lack of capacity of the drains, flooding problems, and the ever increasing pressures on our vital public services such as our NHS with an increase in the population of around 1,700 new people. If elected, Plaid Councillors will fight tooth and nail to oppose these plans.

More democracy. We need a thorough review of the democratic set up of the County Council as we beleive that the 10 member Cabinet has far too much power. We would also concentrate on improving the Council's 'day to day services'.

Youth. We would promote more 'Youth Clubs' and 'Youth Support Schemes' within our communities in suitable buildings.

New Town Car Park. We believe there should be a new Car Park constructed either on the John Street Car Park or in Pensarn, where there is ample land available.

Plaid has 60 candidates for the forthcoming County Council elections in Carmarthenshire on May 1st. 37 seats are needed to win control of the Council. Plaid is the ONLY PARTY that can challenge the Labour/Independent run Authority. With your help we can 'Move Carmarthenshire Forward.'

RECORD CYNGHORWYR Y BLAID A'U BLAENORIAETHAU

Cadw mewn cysylltiad ag etholwyr. Mae Cynghorwyr y Blaid yn cadw cysylltiad agos gyda bobl y dref a byddaf yn gwneud hyn trwy ddosbarthu **'Cylchlythyron'** a chynnal **Cymorthfeydd Stryd** ar hyd a lled y Ward.

Cadw Heol y Gwyddau ar agor. Gweithiodd Cynghorwyr Plaid Cymru'n galed i gadw Heol y Gwyddau ar agor fel rhan o ail ddatblygu safle'r Hen Fart yn y dref. Pleidleisiodd y Cynghorwyr Llafur ac Annibynnol i gyd dros ei chau. Pleidleisiodd Cynghorwyr Plaid Cymru i'w chadw ar agor ac yna trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar eu costau eu hunain i wrthwynebu'r cau.

Trafnidiaeth Ysgol. Byddai Plaid Cymru yn ymgyrchu i ddisgyblion i **gael teithio am ddim** o fewn y dref i'r ysgolion uwchradd er mwyn diogelwch a lleihau'r defnydd o geir er mwyn gwella'r amgylchedd.

Glan yr Afon. Fe fyddaf yn gefnogol i ddatblygu ardal y Cei sydd yn Ward y De. Roedd yr ardal yma yn bwysig iawn i'r dre yn hanesyddol felly fe fydd rhaid i unrhyw ddatblygiadau newydd adlewyrchu ein treftadaeth e.e. cwryglau a chychod er mwyn denu pobl i ddeall ein hanes lleol cyfoethog. Byddaf hefyd yn cefnogi ymgyrch y cwryglwyr yn dilyn penderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfyngu nifer y trwyddedau ar y Tywi.

800 o dai newydd. Byddaf yn ymuno gyda Chynghorwyr y Blaid yn Ward y Gorllewin i wrthwynebu cynlluniau Adran Gynllunio'r Sir i godi 800 o dai newydd rhwng Travellers Rest a safle hen Ysbyty Dewi Sant. Gwrthwynebaf oherwydd effeithiau 800 o dai newydd a 1,700 o bobl newydd ar y ffyrdd, y system garffosiaeth, problemau gyda llifogydd ar y tir ac effeithiau ar wasanaethau pwysig fel doctoriaid ac ysbytai. Os byddwn ddigon ffodus i gael ein hethol fe fydd Cynghorwyr y Blaid yn brwydro yn galed i wrthwynebu'r cynlluniau hyn.

Mwy o ddemocratiaeth. Rydym ni o blaid adolygiad llwyr o'r ffordd y mae'r Cyngor Sir yn cael ei redeg gan ein bod yn credu bod gormod o rym gan y Cabinet. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o sylw i wella gwasanaethau dydd i ddydd y Cyngor.

Ieuenctid. Byddem yn hyrwyddo mwy o 'Glybiau Ieuenctid' a 'Chynlluniau Helpu'r Ifanc' yn y dref ac mewn adeiladau addas.

Maes Parcio Newydd i'r Dre. Credwn fod eisiau Maes Parcio newydd i'r dre, naill ai yn Stryd Sant Ioan neu ym Mhensarn lle mae yna ddigonedd o dir.

Mae gan y Blaid 60 o ymgeiswyr yn yr etholiadau i Gyngor Sir Caerfyrddin ar Fai 1af. Mae angen ennill 37 sedd i reoli'r Cyngor. Plaid Cymru yw'r UNIG BLAID a all herio'r Grwp Llafur/Annibynnol. Gyda'ch cefnogaeth chi gallwn 'Symud Sir Gâr Ymlaen' yn yr etholiadau ar Fai 1af.

IT'S TIME FOR CHANGE
MAE'N AMSER NEWID

The average age of Councillors is 61. Contrary to all other candidates in this Ward Arwel Lloyd has the vitality of youth and the enthusiasm and experience needed to represent your views effectively over the next four years.

Cyfartaledd oed Cynghorwyr yw 61. Yn wahanol i ymgeiswyr eraill y Ward hon mae Arwel Lloyd yn perthyn i'r genhedlaeth iau ac mae ganddo'r brwdfrydedd a'r profiad i'ch cynrychioli chi yn effeithiol ac yn ddidwyll dros y pedair mlynedd nesaf.

ARWEL LLOYD

- Lives and works in Carmarthen as Political Officer for local Assembly Member, Nerys Evans.
- A busy campaigner for improved facilities and services.
- Vast experience in working with Assembly Members on behalf of local residents over the last six years.
- Former member and national winner with the Young Farmers Clubs in Ceredigion. Interests include travelling and sports, especially football. A keen supporter of CarmarthenTown FC.
- Member of Seingâr Choir, Carmarthen.

- *Byw a gweithio yng Nghaerfyrddin fel Swyddog Gwleidyddol gyda'r Aelod Cynulliad lleol, Nerys Evans.*
- *Ymgyrchydd brwd dros wella cyfleusterau'r dref.*
- *Profiad o weithio gydag Aelodau Cynulliad ar ran trigolion lleol ar lefel sirol a chenedlaethol dros y chwe blynedd ddiwethaf.*
- *Cyn-aelod brwd ac enillydd cenedlaethol gyda'r Ffermwyr Ifainc yng Ngheredigion. Diddordebau yn cynnwys teithio a chwaraeon, yn enwedig pêl-droed. Cefnogwr brwd o Glwb Pêl-Droed Caerfyrddin.*
- *Aelod o Gôr Seingâr, Caerfyrddin.*

Read Plaid Cymru's Manifesto 'Moving Carmarthenshire Forward' plus the latest information on candidates by visiting:
www.plaidsirgar.org

Os am ddarllen Maniffesto'r Blaid 'Symud Sir Gâr Ymlaen' a chael mwy o wybodaeth am ymgeiswyr, ewch i:
www.plaidsirgar.org

Cyhoeddwyd gan A.Lloyd, 27 Teras Picton, Caerfyrddin ac argraffwyd gan Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin
Published by A Lloyd, 27 Picton Terrace, Carmarthen and printed by Lewis Printers, Carmarthen